



YSGOL GYFUN GYMRAEG
GLANTAF
CORON GWLAD EI MAMIAITH

Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf

Heol y Bont, Ystum Taf
Caerdydd, CF14 2JL

Pennaeth/Head:
Mr Matthew H T Evans

029 2033 3090 
ysgolgyfunglantaf@caerdydd.gov.uk 
www.glantaf.cymru 

14 Hydref 2022

Annwyl Riant Warcheidwad,

Gemau Terfynol Cwpan Prydain

Dymunwn yn dda i'n tîm pêl-droed dan 14 wrth iddynt baratoi ar gyfer eu gêm fawr nesaf, rownd derfynol Cwpan Prydain, gyda Glantaf yn cynrychioli Cymru yn y gystadleuaeth yng Nghanolfan Hyfforddi Genedlaethol Lilleshall yn Lloegr. Yn dilyn eu buddugoliaeth yng Nghwpan Cymru y llynedd, mae'r capten Elan Hall yn gobeithio arwain y tîm at lwyddiant pellach – *amdani ferched a phob dymuniad da gan bawb yng Nglantaf!*



Cynrychioli Cymru ar lefel Brydeinig

Prydau Bwyd

Mae trefniadau amser cinio ac amser egwyl / clwb brechwast yn parhau i weithio yn arbennig o dda yn yr ysgol ac mae ein diolch diffuant i Mrs Serina Sheppard a'r tîm am eu gwaith caled a'u gofal wrth ddarparu prydau blasus, poblogaidd ac o safon uchel i holl gymuned yr ysgol. Mae ein bwydlen wedi'i ehangu i gynnwys prydau iachus fel cinio rhost, selsig a stwnsh, lasagne, pasta pôb, pei'r bugail yn ogystal â'r cyri, peli cig pasta a phryd pysgod a sglods poblogaidd! Rydym yn annog pob disgybl i roi cynnig ar y fwydlen newydd ac i'r disgyblion hynny sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim i dderbyn eu prydau pob dydd.

Noson Cyri a Chwis, *Cyfeillion Glantaf*: Mercher 16 Tachwedd

Ymunwch â ni am noson Cyri a Chwis hwyliog i rieni a chefnogwyr Glantaf ym mwyty Indiaidd Juboraj yn Rhiwbeina ar Nos Fercher 16 Tachwedd am 7pm. Pris y tocynnau yw £20 ac mae'n cynnwys gwledd blasus Indiaidd a chwis bywiog! Estynnwch wahoddiad i'ch ffrindiau a bwcio bwrdd i ymuno â ni - byddai'n wirioneddol wych cael eich cefnogaeth! Bydd yr holl elw yn mynd at Gyfeillion Glantaf i gefnogi gweithgarwch allgyrsiol yn yr ysgol ac i ariannu ein bws mini newydd. Mae tocynnau ar gael nawr ar ParentPay ac edrychwn ymlaen at noson hynod o bleserus.

Aelodaeth yr Urdd

Cofiwch adnewyddu aelodaeth eich plentyn gyda'r Urdd: [Ymuno | Urdd Gobaith Cymru](#) Gobeithiwn y bydd pob disgybl sy'n dymuno cystadlu mewn digwyddiadau chwaraeon megis Rygbi 7 bob ochr, y Celf a Dylunio a'r holl gystadlaethau amrywiol yn Eisteddfod yr Urdd eleni (Llanymddyfri) yn ymuno â'r mudiad. Mae aelodaeth am ddim i bawb sy'n gymwys am Ginio Ysgol am Ddim a gobeithiwn ymestyn y profiadau y mae Glantaf yn eu cynnig ar y cyd â'r Urdd yn ystod 2022/23.

Cluniaduron BI8 a thaith i'r Gurdwara

Hoffem atgoffa pob rhiant BI8 i lofnodi'r cytundebau cydsynio am y gluniaduron sydd i'w dosbarthu ac i brynu, os ydynt yn dymuno, yr amlen ddiogel sy'n gwarchod yr offer. Rydym yn gobeithio dosbarthu'r dyfeisiau yr wythnos nesaf. Bydd holl ddisgyblion BI8 hefyd yn ymweld â Gurdwara Caerdydd yr wythnos nesaf a gobeithiwn yn fawr y byddant yn mwynhau ac yn gwerthfawrogi'r ymweliad pwysig hwn fel rhan o'u hastudiaethau Addysg Grefyddol.

Cerddorfa Unedig Plasmawr, Bro Edern a Glantaf mewn Cyngerdd

Rydym yn falch iawn bod pob disgybl sy'n chwarae offeryn cerdd wedi cael eu gwahodd ar gyfer gweithdy deuddydd ym Mhlasawr ar y 18 a'r 19 o Hydref, gan baratoi ar gyfer cyngerdd ar gyfer y gerddorfa unedig newydd hon am 6pm ar 19/10/22 (tocynnau ar gael ar y drws).

Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth – gwisgo coch Gwener 21 Hydref


Unwaith eto rydym yn falch iawn o groesawu siaradwyr o *Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth* i gynnal sesiynau gyda disgyblion o Bl 7&9 ar 20 a 21 Hydref. Dylai'r gweithdai gwerthfawr hyn roi anogaeth clir i ddisgyblion frwydro'n erbyn hiliaeth a rhagfarn ac rydym yn annog pob disgybl i ddangos eu cefnogaeth i'r ymgyrch mewn dydd gwisg eu hunain (coch!) a chyfrannu £1 tuag at yr elusen.

Rhiant gynrychiolwyr ar y Corff Llywodraethu

Rydym yn chwilio am bedwar rhiant-gynrychiolydd i'n Corff Llywodraethu ddechrau'r tymor hwn. Anfonwyd papurau perthnasol atoch yr wythnos hon gydag enwebiadau'n cau ar 27 Hydref. Yna bydd yr etholiad (os oes angen), yn cael ei gynnal o 7 i 21 Tachwedd. Bydd canlyniadau'r etholiad yng nghylchlythyr mis Rhagfyr. Yn olaf, diolch diffuant i'r rhiant-gynrychiolwyr hynny am eu cyfraniad gwerthfawr i Glantaf yn ystod eu cyfnod ar y Corff Llywodraethu, diolch o galon i chi!

Clybiau allgyrsiol

Edrychwch ar ein clybiau allgyrsiol isod, sydd yn ychwanegol i'r chwaraeon a cherddoriaeth sydd ar gael: <https://docs.google.com/spreadsheets/d/1Z-whVfuNcal4Tx2idBRcG9Uj5rxRUWs8ZAr7SdZZBVQ/edit?usp=sharing>



Cynnyrch Mislwyf

Hoffwn eich atgoffa bod cynnyrch misglwyf ar gael am ddim yn yr ysgol a bod mynediad rhywydd ar gyfer disgyblion. Cysylltwch â Mrs B Newis, i gael rhagor o fanylion, NewisR@hwbcymru.net

Asesiadau ac arholiadau BI11

Bydd Asesiadau Llafar TGAU Saesneg yr wythnos nesaf a dymunwn yn dda i'n myfyrwyr Drama wrth iddynt baratoi ar gyfer eu hasesiadau ymarferol ar 27 a 28 Hydref. Bydd arholiadau TGAU Rhifedd yn cael eu cynnal ar foreau'r 8 a 10 Tachwedd.

Nosweithiau gwybodaeth Rhieni: Bl 10 (17/10) ac ysgol gyfan am ddiogelwch ar y we (24/10)

Byddwn yn cynnal noson wybodaeth i rieni ym Mlwyddyn 10 ynglŷn â'r gwaith yn ystod eleni drwy *Teams* ar 17 Hydref. Hoffwn hefyd eich hysbysu o'n Noson Diogelwch Rhynggrwyd i rieni i fynd i'r afael â phryderon penodol ynghylch cynnwys peryglus ac amrhiadol sy'n cael ei rannu'n eang ymysg pobl ifanc:

Nos Lun, Hyd 17	Bl 10	5pm (Cyfrwng Cymraeg)	5.30pm (Cyfrwng Saesneg)
Nos Lun, Hyd 24	Ysgol Gyfan	5pm (Cyfrwng Cymraeg)	6pm (Cyfrwng Saesneg)

I gloi,

Rydym wrth ein bodd fod disgyblion Bl 7 ac 8 wedi mwynhau eu cyrsiau preswyl diweddar i Langrannog, ac fel staff hoffem ddiolch iddynt am eu hiwmor a'u cwmni da. Fel bob amser os ydych angen rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r ysgol a dilynwch ein cyfrif trydar ar: [@Ysgol_Glantaf](https://twitter.com/Ysgol_Glantaf)

Yn gywir,

Matthew H T Evans

Pennaeth

Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf



Mwynhau Llangrannog!